**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

# Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) (Cymru) 1999

## Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau a gyflwynodd y gwaharddiad ar gig eidion ac esgyrn ynddo er mwyn caniatáu gwerthu cig eidion ac esgyrn ynddo drwy ddulliau adwerthu. Mae'r cyfyngiadau yn aros yn eu lle mewn perthynas â phrosesu bwyd a'i wneud yng nghwrs busnes.

Gwneir diwygiadau sy'n union yr un peth ar gyfer yr Alban a Lloegr.

Galluogi gwerthu cig eidion ar yr asgwrn (a chynhwysion sy'n deillio ohono) i ddefnyddwyr o dan amgylchiadau lle bydd y defnyddiwr yn gallu, drwy wneud ymholiadau os bydd angen, sicrhau y bydd ei bwrcas wedi'i wneud o ddeunydd o'r fath neu yn cynnwys deunydd o'r fath, yw cysyniad y diwygiadau. Yr hyn sydd wedi'i wahardd o hyd yw gwerthu deunydd o'r fath o dan amgylchiadau sydd mor bell oddi wrth y defnyddiwr terfynol fel na allai'r person sy'n ei werthu i'r cwsmer ddweud a ddefnyddiwyd deunydd o'r fath ai peidio.

Mae darpariaethau'r Rheoliadau diwygiedig yn gymhleth, ond ffrwyth gofynion polisi yw hyn yn hytrach na'r drafftio.

## Rheol Sefydlog 11.5

Ni fernir fod unrhyw faterion yn codi o dan RhS 11.5 y dylai'r Cynulliad nodi fel rhai sy'n gofyn am sylw arbennig.

## Sylwadau Cyffredinol

Nid oes unrhyw faterion i'w crybwyll yma ond y bydd angen i'r troednodiadau fod ar ffurf dwy golofn yn y fersiwn argraffedig.

Dylid pwysleisio mai adroddiad yn seiliedig ar y Rheoliadau yn y ffurf y maent wedi'u gosod o

flaen y Cynulliad ar gyfer y Cyfarfod llawn ar y 15fed o Ragfyr 1999 yw hwn. Os fydd y Rheoliadau yn cael eu newid o ganlyniad i'r Diwygiad sydd hefyd i'w drafod gan y Cynulliad ar y diwrnod hwnnw, fe fydd y Pwyllgor yn adroddiad unwaith eto.

**M.German, Cadeirydd**

**Pwyllgor Deddfau**

**14 Rhagfyr 1999**

Cyf: LAD-01-01-043